# Gêm lle diogel

30 mun

## Canllaw gweithgaredd:

Yr offer sydd ei angen:

- Cylchynnau hwla (Hula hoops) neu fatiau llawr
- Chwiban

**Cyn y gêm:**

1. Lledaenwch y cylchynnau hwla neu fatiau o gwmpas ardal y gêm i gynrychioli cynefinoedd yr anifeiliaid.

**I chwarae'r gêm:**

1. Eglurwch fod anifeiliaid yn defnyddio'u cynefinoedd fel lloches i'w cadw'n ddiogel rhag ysglyfaethwyr.
2. Mae'r dosbarth yn rhedeg o gwmpas ardal y gêm gan actio fel petaent yn bwydo.
3. Mae'r chwiban yn canu - mae hyn yn golygu perygl, mae'n rhaid i'r holl blant gyrraedd y cynefin diogel cyn i'r chwiban orffen.
4. Mae unrhyw un sydd heb gyrraedd yr ardaloedd diogel allan o'r gêm, ac mae'n rhaid iddynt eistedd ar yr ochr.
5. Ym mhob rownd, mae matiau / cylchynnau hwla yn cael eu tynnu, gan wneud y mannau diogel yn llai ac ymhellach oddi wrth ei gilydd.
6. Yna, gellir trafod effeithiau colli cynefin, a gall y plant drafod faint anoddach ydoedd i gyrraedd man diogel wrth i'r cynefinoedd ddiflannu.